

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Lun,  
20 Gorffennaf 2020. Cyfarfod fidio ydoedd.

**Minutes of the Finance Committee Meeting held, Monday, 20 July 2020. It was a video meeting.**

## **Yn bresennol / Present**

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones; David C Davies; Eddie Willcox;  
Hefyd yn bresennol - David Roberts, Rheolwr y Cyngor. Ann Llwyd Williams , Cyfiethydd

## **1 Croeso'r Cadeirydd - Chairmans Welcome**

Agorwyd y cyfarfod gan Cyng. David C Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid am 8 o'r gloch yr hwyr. Diolchodd i'r aelodau oedd yn bresennol. Croesawyd Ann Llwyd Williams oeddyn cyfieuthu y drafodaeth dros y ffôn i'r Cyng. Eddie Willcox. Aeth yn syth at y rhaglen

## **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Cyng. Bryn Williams ; Cyng. Hywel J Owen

## **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Neb wedi datgan buddiant personol neu buddiant oedd yn rhagfarnu / No member declared a personal or prejudicial interest

## **4 Asesiad Risg – Trefnadau Gweinyddol ac Ariannol / Financial & Administration Financial Risk Assessment**

Dosbarthwyd copi o Asesiad Risg Blynyddol i bob aelod ymlaen llaw i'r cyfarfod.

Eglurodd y Rheolwr nad oes gan y Cyngor drefniant i adnabod risg tu allan i'r Rheolau Sefydlog y Cyngor. Mae'r asesiad risg hwn yn rhan o reolaeth ariannol, weinyddol a risg y Cyngor ac mae ganddo sail gyfreithiol yn Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a gyhoeddir o bryd i'w gilydd o dan y Ddeddf. Rhaid iddo gael ei adolygu a'i fabwysiadu gan y Cyngor yn flynyddol ac fel rheol ymdrinnir ag ef yn y Cyfarfod Blynyddol. Nod y ddogfen yw dileu risg ac felly amddiffyn enw da'r Cyngor.

Nodwyd fod y gwaith i greu'r Asesiad wedi cychwyn nôl yn Hydref 2019 ond fod y gwaith wedi ei ohirio.

Sylwadau Aelodau –

AWJ - angen i'r ddogfen nodi mai pwrpas y ddogfen yw cael gwared a risg yn gyfangwbl. Yn gwneud y sylw fod Pwyllgor Cyllid wedi ei sefydlu i reoli risg, ynghyd a chyfansoddiad yn beneodol y Rheoliadau Ariannol

EW - angen edrych ar drefniadau bancio yn benodol talu credydwy'r pe byddai'r Rheolwr yn absennol o'i waith.

Cynnigwyd addasiadau i'r ddogfen gan yr aelodau

**Argymhelliad i'r Cyngor -**

- i) Fod y Cyngor yn mabwysiadu y ddogfen "Asesiad Risg Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021".**
- ii) Fod y Cyngor yn ymrwymo i greu Cynllun Parhad Gwasanaeth pe byddai'r rheolwr yn absennol o'i waith am gyfnod ac fod y gwaith hwn yn cynnwys trefniadau talu credydwr.**
- iii) Fod y Cyngor yn enwebu y pwyllgor priodol i gyflawni y gwaith.**

**Recommendation to the Council-**

- i) That the Council adopts the document "Annual Risk Assessment for the Year ending 31 March 2021".**
- ii) That the Council undertakes to create a Service Continuity Plan should the manager be absent from work for a period of time and this should include arrangements to pay creditors.**
- iii) That the Council nominates the appropriate committee to carry out the work.**

Diolchodd y Cadeirydd i Ann ac i'r Rheolwr am eu gwaith.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:55 yr hwyr / The meeting came to a close at 8:55pm**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Dyddiad -**